COMPANY PROGRAMME

Young Enterprise
Menter yr Ifanc

A member of/Aelod o JA Worldwide

# FFRAMWAITH GWEITHREDU

## RHAGLEN CWMNI



2025 - 2026

Rhif cofrestru'r elusen: 313697

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 1 |
| 2 | Eich rhwymedigaethau cyfreithiol | 2 |
| 3 | Y math o gwmni myfyrwyr | 3 |
| 4 | Sicrwydd yswiriant | 4 |
| 5 | Cyllid cwmni myfyrwyr | 6 |
| 6 | Cymeradwyo cynnyrch | 7 |
| 7 | Gwerthu wyneb yn wyneb | 8 |
| 8 | Gwerthu ar-lein | 9 |
| 9 | Rhoddion elusennol | 10 |

# Introduction



## Croeso i Fframwaith Gweithredu'r Rhaglen Cwmni!

Fframwaith cyfreithiol yw hwn sy'n cynnwys y rheolau y mae'n rhaid i chi eu dilyn wrth sefydlu eich Cwmni Myfyrwyr Young Enterprise.

Bydd yn eich amddiffyn chi ac Young Enterprise rhag torri deddfau'r Deyrnas Unedig sy'n berthnasol i gwmnïau ac elusennau.

Yn y flwyddyn tra bydd yn cael ei gynnal, mae pob cwmni myfyrwyr Young Enterprise yn cael ei gynnal fel petai'n gangen o Young Enterprise.

## Statws cwmni myfyrwyr:

Nid yw cwmnïau myfyrwyr yn fusnesau a gofrestrwyd yn gyfreithiol, felly mae'n rhaid iddynt beidio â gwneud cais am gyllid gan sefydliadau eraill, cymryd rhan mewn tendrau, na llofnodi contractau ar gyfer cyllid. I gael rhagor o wybodaeth am godi cyllid, gweler yr adran Cyllid Eich Cwmni yn y ddogfen hon.

Mae'n rhaid i gwmnïau myfyrwyr beidio â chofrestru eu hunain yn annibynnol gyda Thŷ'r Cwmnïau tra byddant yn cymryd rhan yn y rhaglen.

Os bydd aelod o'ch cwmni myfyrwyr yn llofnodi cytundebau cyflenwr neu gwsmer, bydd rhaid iddo gynnwys yr ymadrodd: 'YN GWEITHREDU FEL PETAI'N GANGEN O YOUNG ENTERPRISE.'

### Sylwch:

O hyn ymlaen, pan fyddwn yn dweud "chi", rydym yn sôn am eich Cwmni Myfyrwyr Young Enterprise.
Mae Fframwaith Gweithredu'r Rhaglen Cwmni yn eiddo i Young Enterprise.
Ni cheir atgynhyrchu, copïo na dyblygu unrhyw ran o'r Fframwaith Gweithredu na'i gynnwys mewn unrhyw ffordd heb ganiatâd ysgrifenedig gan y perchennog.

# Eich Rhwymedigaethau Cyfreithiol

## Enw’r Cwmni Myfyrwyr:

Ar bob anfoneb, derbynneb, archeb, dogfen, gwefan a neges e-bost, mae’n rhaid i’ch Cwmni Myfyrwyr ddangos:

- Enw eich cwmni myfyrwyr
- Lleoliad cofrestredig Young Enterprise
- Rhif cofrestredig Young Enterprise
- Swyddfa gofrestredig Young Enterprise

Gwiriwch fanylion eich swyddfa gofrestredig leol ar **Company Connect**, yn nhasg 1.32 Eich Rhwymedigaethau Cyfreithiol.

## Hawlfreintiau:

Pan fyddwch yn enwi’ch Cwmni Myfyrwyr, ni allwch efelychu, copïo na defnyddio enwau cwmnïau, nodau masnach na hawlfreintiau.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn edrych i weld a yw’r enw rydych wedi’i ddewis ar gael neu os oes gan unrhyw un arall yr hawl unigryw i’w ddefnyddio. Gallwch wneud hyn trwy chwilio am enw eich cwmni yn: **www.gov.uk/intellectual-property/trade-marks**.

**PEIDIWCH â gwneudhyn:**

- AsOs
- Frymark
- H&MMM

## Eiddo Deallusol:

Mae’r gyfraith eiddo deallusol yn atal unrhyw un rhag defnyddio’r un enw brand neu un y gellir ystyried ei fod yn efelychu’r enw hwnnw. Gall cwmnïau gymryd camau cyfreithiol yn erbyn unrhyw un sy’n defnyddio eu brand/eu henw heb eu caniatâd.

**Gwyliwch y fideo hwn i gael gwybod mwy am Eiddo Deallusol (IP)**

**Ni all** enw eich Cwmni Myfyrwyr gynnwys 'Ltd', 'Inc’ na 'Company’.

Enw llawn eich cwmni myfyrwyr YE yw’r enw a ddewiswyd gennych, wedi’i ddilyn gan y geiriau, “Yn gweithredu fel petai’n gangen o Young Enterprise.”

# Dewis eich Math o Gwmni Myfyrwyr

## Masnachol (yn gwneud elw):

**Nodau:**
Rydychyn bodoli i wneud elw.

**Camau Gweithredu:**
Ar ôl dirwyn i ben, fe allech benderfynu rhoi rhywfaint o'r elw i elusen, ond nid dyna brif ddiben y busnes. Mae'r pwyslais ar wneud arian.

## Menter Gymdeithasol

**Nodau:**
Rydych wedi'ch sefydlu i gefnogi diben cymdeithasol neu amgylcheddol penodol.

**Camau Gweithredu:**
Ar ddiwedd y rhaglen, byddwch yn dosbarthu cyfran fawr o'ch elw tuag at hyn. Gallwch ddosbarthu rhywfaint o'r elw yn ôl i'ch cyfranddalwyr, ond mae'r pwyslais ar gefnogi achos da.

*Darllenwch y rhan ar **roddi elusennol** cyn dechrau menter gymdeithasol.



# Sicrwydd Yswiriant

**Mae'n OFYNIAD CYFREITHIOL yn y Deyrnas Unedig i wneud yn siŵr bod gan eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau sicrwydd yswiriant rhag ofn bydd rhywbeth yn mynd o'i le. Mae Young Enterprise wedi trefnu Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a Chynnyrch ar gyfer Cwmnïau Myfyrwyr Young Enterprise, hyd at £10,000,000.**

Mae'n **RHAID** i chi wirio bod y cynnyrch/gwasanaeth rydych yn ei greu yn dod o dan yr yswiriant hwn.

**NID YW EICH SICRWYDD YSWIRIANT YN CYNNWYS gwerthu, cyflenwi, gweithgynhyrchu, adnewyddu, addasu, newid nac atgyweirio:**

- **Canhwyllau neu gwyr tawdd,** gan gynnwys rhai a wnaed â llaw neu a brynwyd mewn siop.
- Poteli neu jariau **gwydr wedi'u haddasu at ddibenion gwahanol.**
- Unrhyw gynnyrch y mae angen iddo gael ei blygio i'r **prif gyflenwad trydan** neu sy'n defnyddio **gwefrydd USB.**
- **Asidau a nwyon,** gan gynnwys balwnau heliwm, ffrwydron, tân gwyllt, cemegion, chwistrellau cnydau neu chwyn, cyffuriau neu gynhyrchion fferyllol fel meddyginiaeth.
- Gweithredu fel **asiantaeth deithio,** trefnydd teithiau neu wasanaeth tacsi.
- Rhannau ar gyfer **rheoli awyrennau.** Cerbydau a yrrir yn fecanyddol ac unrhyw beth a ddefnyddir i'w hatgyweirio neu eu cynnal a'u cadw.
- **Bwydydd anifeiliaid anwes** neu unrhyw gynhyrchion i'w bwyta gan anifeiliaid.
- **Alcohol neu dybaco,** gan gynnwys trefnu neu hyrwyddo digwyddiadau lle mae'r rhain yn cael eu gwerthu neu eu gweini, hyd yn oed os nad yw myfyrwyr yn gweini'r cynhyrchion hyn.
- **Gweithgareddau gamblo**
    - **Eithriad:** Cewch gynnal raffl os yw'r tocynnau'n cael eu gwerthu o fewn eich ysgol/coleg yn unig.
- Cynhyrchion henna, paentiau wyneb, olewau naws ac **unrhyw gosmetigau neu baratoadau harddwch.**
    - **Eithriad:** Gallwch ailwerthu cynhyrchion â brand, gan gynnwys sebon, persawrau, halwynau ymolchi a phersawrau ystafell. Mae'n rhaid i'r rhain aros yn eu pecyn gwreiddiol, gydag enw a chyfeiriad y gweithgynhyrchwr a'r rhestr o gynhwysion.
- **Bwydydd** gan gynnwys unrhyw gynhyrchion heb frand i'w bwyta a chynhyrchion y mae angen iddynt fod yn yr oergell neu sydd â gofynion storio arbennig. Unrhyw gynnyrch y mae ei ddyddiad 'gwerthu erbyn' yn llai na 3 mis, neu a fyddai'n cyrraedd y dyddiad 'gwerthu erbyn' pan fyddwch yn barod i'w werthu. Unrhyw blanhigion bwytadwy.
    - **Eithriad:** Os yw'ch cwmni'n cael ei redeg yn rhan o gwrs arlwyo sydd â sicrwydd yswiriant eisoes, cewch werthu bwydydd, ond mae'n rhaid i chi ofyn am gymeradwyaeth ysgrifenedig gan programmes.support@y-e.org.uk gan roi tystiolaeth o'r sicrwydd yswiriant. Nid yw Hylendid Bwyd yn cyfrif fel cwrs arlwyo.

# Sicrwydd Yswiriant

## Nid yw yswiriant Young Enterprise yn cynnwys y canlynol:

- Yn gweithredu o fewn neu'n masnachu gydag **Unol Daleithiau America neu Ganada**, neu unrhyw wlad sydd o dan eu hawdurdodaeth. Gwerthu unrhyw gynnyrch a fewnforiwyd o **Tsieina**, neu unrhyw gynnyrch na ellir ei olrhain yn ôl i'r gweithgynhyrchwr.
- Gweithredu o fewn unrhyw wlad sy'n ddarostyngedig i **gosbau ariannol** gan y Deyrnas Unedig. Mae'r wefan gov.uk yn rhoi rhestr lawn o wledydd na allwch weithredu ynddynt. Gwiriwch y rhestr **yma** cyn symud ymlaen.
- **Colled/difrod:** Cost neu werth unrhyw gynnyrch a gollwyd neu a ddifrodwyd o ganlyniad i ddiffygion neu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag atgyweirio neu amnewid cynnyrch. Colledion o gynhyrchion wedi'u difrodi a ddyluniwyd gennych chi/ar eich cyfer chi ac a werthwyd i brynwyr.
- **Eiddo personol:** Cost unrhyw eiddo personol a gollwyd neu a ddifrodwyd.
- **Atebolrwydd:** Unrhyw beth y mae eich cwmni'n cytuno bod yn atebol (yn gyfrifol) amdano trwy gytundeb neu gontract y tu allan i'r fframwaith gweithredu hwn.

## Sylwch:

Nid yw'r polisi'n cynnwys y **£100 gyntaf** o unrhyw hawliad, a gall hyn fod yn uwch mewn rhai amgylchiadau. Pan fydd damwain yn digwydd, dylai myfyrwyr ddweud wrth eu haddysgwr neu wirfoddolwr a ddylai roi gwybod i Young Enterprise amdani.

**Nid oes sicrwydd damwain bersonol** ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan yn y rhaglen hon. Mae gan lawer o ysgolion eu cynlluniau eu hunain.

Os ydych yn cynnig gwasanaeth sy'n golygu eich bod yn ymgysylltu'n uniongyrchol â chwsmeriaid ar sail un i un neu mewn grwpiau bach naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein, gwnewch yn siŵr eich bod wedi ystyried trefniadau **diogelu** priodol ar eich cyfer chi a'ch cwsmeriaid.



# Cyllid eich Cwmni

## Codi arian ar gyfer eich cwmni myfyrwyr:

Cyni chi lansio'ch cynnyrch, bydd angen i chi gael rhywfaint o arian i ddechrau arni. Dyma rai rheolau i'w dilyn wrth godi arian.

- **Gwerthu cyfranddaliadau:** Gallwch werthu cyfranddaliadau i godi arian i ddechrau arni. Mae'n rhaid i bob aelod o'r Cwmni Myfyrwyr brynu un cyfranddaliad o leiaf.
- **Benthyciadau: Ni chewch** dderbyn benthyciadau (e.e. gan unigolion, cwmnïau, ysgolion) na defnyddio cyllido torfol.
- **Grantiau a Rhoddion:** Nid yw cwmnïau myfyrwyr yn fusnesau a gofrestrwyd yn gyfreithiol, felly mae'n rhaid iddynt **beidio** â gwneud cais am gyllid gan sefydliadau eraill, cymryd rhan mewn tendrau, na llofnodi contractau ar gyfer cyllid.
    - **Digwyddiadau:** Gallwch dderbyn cymorth ariannol i dalu am gost cymryd rhan mewn digwyddiadau arbennig, fel ffeiriau masnach cenedlaethol neu ryngwladol (lle y'i cynigir).
    - **Gwasanaethau:** Caniateir gwerthu gwasanaeth yn gyfnewid am arian, fel cael eich talu i hysbysebu. Dylai'r swm a dderbyniwch fod yn deg o ystyried y gwasanaeth rydych yn ei ddarparu. Dylech gofnodi'r tâl a dderbyniwch yn eich cofnodion a'ch derbynebau.
- **Taliadau dros £200:** Mae'n rhaidi chi gadw cofnod o gymeradwyaeth gan yr addysgwr neu'r gwirfoddolwr am daliadau dros £200.

## Esboniad o gyfranddaliadau:

Os ydych yn berchen ar gyfranddaliad, rydych yn berchen ar un o'r rhannau cyfartal y mae cyfalaf cwmni wedi'i rannu iddo.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Mae'n rhaid i bob aelod o gwmni myfyrwyr brynu un cyfranddaliad o leiaf.** | **Mae pris cyfranddaliadau wedi'i osod yn £1 yr un.** | **Gall pob unigolyn ddal uchafswm o 25 cyfranddaliad – uchafswm gwario £25.** | **Gallwch werthu uchafswm o 500 o gyfranddaliadau.** |
| 1 | £1 | 25 | 500 |

# Cymeradwyo eich Cynhyrchion a'ch Gwasanaethau

## Y broses cymeradwyo cynnyrch:

1

Cyn i chi allu gwerthu eich cynnyrch neu wasanaeth, mae'n rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan eich Rheolwr Partneriaethau Addysgol YE lleol. Dylai ceisiadau am gymeradwyo cynnyrch gael eu cyflwyno ar **Company Connect**.

2

Yng Ngharreg Filltir 2, Tasg 3, byddwch yn adolygu beth yw cymeradwyo cynnyrch a sut i sicrhau bod eich cynnyrch neu'ch gwasanaeth yn dilyn rheolau cyfreithiol y rhaglen.

3

Ar ddiwedd y dasg, cewch eich cyfeirio at y dudalen cymeradwyo cynnyrch i gyflwyno cais am gymeradwyo. Byddwch yn ateb cyfres o gwestiynau am eich cynnyrch/gwasanaeth. Lluniwyd y cwestiynau i'ch helpu i sicrhau y bydd eich cynnyrch yn cael ei gymeradwyo ac yn dod o dan yswiriant YE. Os gwrthodir eich cais, gallwch gyflwyno un newydd unrhyw bryd.

4

Ar ôl i chi anfon eich cais am gymeradwyo cynnyrch, bydd aelod o staff Young Enterprise yn rhoi gwybod i chi:

- Os yw wedi cael ei gymeradwyo
- Os oes angen mwy o wybodaeth
- Os na ellir ei gymeradwyo (a pham)

Gallwch fonitro statws eich holl geisiadau am gymeradwyo cynnyrch o'ch tudalen proffil cwmni ar Company Connect.

5

Pan fydd eich cynnyrch/gwasanaeth wedi cael ei gymeradwyo, gallwch ddechrau gwerthu ar-lein ac wyneb yn wyneb! I werthu ar-lein, bydd angen i chi gofrestru ar ein marchnad ddigidol, **YE Trading Station**. Dysgwch fwy am werthu yn adran 6.

Gallwch fonitro statws eich holl geisiadau am gymeradwyo cynnyrch o'ch **Tudalen Proffil Cwmni** ar Company Connect.

# Gwerthu Wyneb yn Wyneb

## Card One Money

Rydym yn darparu mynediad at gyfrif cyfredol busnes Card One Money (COM) ar gyfer pobl dan 18 oed, a addaswyd yn benodol ar gyfer Cwmnï au Myfyrwyr Young Enterprise.

Mae rhagor o wybodaeth am sefydlu'r cyfrif ar gael ar **Company Connect** yng Ngharreg Filltir 2. Nid yw'r cyfrif COM ar gael i fyfyrwyr yng Ngogledd Iwerddon.

## Arian parod

I ddiogelu arian parod a dderbynnir mewn ffair fasnach neu ddigwyddiadau gwerthu eraill, dylech ei gadw'n ddiogel bob amser mewn blwch y gellir ei gloi neu dun arian parod. Os caiff ei adael heb ei oruchwylio, dylai arian parod gael ei gadw mewn blwch y gellir ei gloi mewn ystafell dan glo. Cadwch y blwch mewn drôr neu gwpwrdd allan o'r golwg i leihau'r tebygolrwydd o ddwyn.

## Darllenwyr cardiau

Mae'n rhaid i chi fod dros 18 oed i brynu darllenydd cerdyn, ond bydd Young Enterprise yn caniatáu i oedolyn dibynadwy brynu a sefydlu darllenydd cerdyn ar ran cwmni myfyrwyr, ar yr amod y bodlonir y meini prawf canlynol:

- Mae'n rhaid i'r oedolyn dibynadwy gymryd cyfrifoldeb am unrhyw delerau ac amodau a rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â'r darllenydd cerdyn a thrafodion gwerthu canlyniadol
- Mae'n rhaid i'r oedolyn dibynadwy gysylltu'r darllenydd cerdyn â'i gyfrif ei hun a threfnu i'r holl arian gael ei drosglwyddo'n ddiogel i gyfrif y cwmni myfyrwyr
- Bydd y cwmni myfyrwyr yn gyfrifol am unrhyw daliadau neu ffioedd sy'n gysylltiedig â defnyddio'r darllenydd cerdyn
- Nid yw YE yn gallu darparu cymorth ynglŷn â defnyddio darllenwyr cardiau, nac unrhyw faterion gyda'u darparwyr

# Gwerthu ar-lein



## YE Trading Station

Pan fydd eich cynnyrch neu wasanaeth wedi cael ei gymeradwyo, gallwch ddefnyddio'r cod a gynhyrchwyd trwy gymeradwyo'r cynnyrch ar Company Connect i'w restru ar **YE Trading Station**, ein platfform gwerthu ar-lein penodol. Bydd hyn yn caniatáu i chi ei arddangos i ffrindiau, teulu a chynulleidfa ehangach o gwsmeriaid posibl.

Gallwch ddefnyddio YE Trading Station i gadw golwg ar eich cynhyrchion a'ch archebion a gweld yr holl gynhyrchion eraill sy'n cael eu gwerthu. Byddwch hefyd yn cymryd rhan mewn ffeiriau masnach ar-lein, lle y gallwch hyrwyddo eich siop Trading Station a'i chynnwys mewn cystadlaethau.

Nid yw YE Trading Station yn cynnig taliadau ar-lein. Bydd angen i'r holl daliadau ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau gael eu gwneud trwy ddarparu anfoneb i gwsmeriaid. Yna, gallant dalu trwy drosglwyddiad banc.

## Platfformau talu ar-lein

Ni chaiff pobl dan 18 oed ddefnyddio platfformau talu electronig, fel PayPal. Yn ôl y gyfraith, mae'r rhain yn mynnu bod pobl dros 18 oed i gofrestru.

## Gwefannau/cyfryngau cymdeithasol

Gallwch ddefnyddio'ch gwefan neu'ch cyfryngau cymdeithasol eich hun i hyrwyddo'ch cynnyrch neu wasanaeth, ond yr unig ffordd gymeradwy o werthu ar-lein yw trwy YE Trading Station. Ni all pobl dan 18 oed ddefnyddio unrhyw blatfformau gwerthu eraill, gan gynnwys eBay neu Amazon, sy'n mynnu eich bod dros 18 oed i gofrestru.



# Rhoddion Elusennol

Gan fod Young Enterprise yn elusen gofrestredig, mae'n rhaid i'w chronfeydd gael ei defnyddio at ei nodau ei hun yn unig yn ôl y gyfraith. P'un a ydynt wedi'u cofrestru fel menter fasnachol neu gymdeithasol, pan fyddant yn gweithredu fel petaent yn gangen o Young Enterprise, ni all cwmnïau myfyrwyr godi arian i elusen arall.Enterprise.

Mae hyn yn golygu, tra byddant yn cael eu cynnal, **ni all** Cwmnïau Myfyrwyr ddatgan bwriad i roi unrhyw ran o'u helw i elusen. Er enghraifft:

- ✗ Ni ddylai timau ddatgan y bydd canran o'r elw'n mynd i elusen yn eu gweithgareddau neu ddeunyddiau gwerthu neu farchnata.
- ✗ Ni ddylai timau hyrwyddo elusen benodol ar eu stondin fasnach neu mewn deunyddiau marchnata, gan gynnwys ar-lein a thrwy gyfryngau cymdeithasol.
- ✓ Gall timau menter gymdeithasol hyrwyddo eu nod cymdeithasol cyffredinol yn unol â'u cenhadaeth a'u gweledigaeth.
- ✓ Ar ôl diwedd blwyddyn y cwmni (ar ôl yr adeg dirwyn i ben), caiff myfyrwyr gadw, rhoi neu ailfuddsoddi unrhyw elw maen nhw wedi'i wneud. Gallai timau ddewis cyfrannu rhodd i achos da, ailfuddsoddi cronfeydd yn y sefydliad addysgol i gefnogi gweithgarwch menter yn y dyfodol, neu rannu'r elw ymhlith eu cyfranddalwyr.

## Sylwch:

Pan fyddwch yn postio neu'n ymgysylltu ar-lein, cofiwch eich bod yn cynrychioli'ch cwmni a Young Enterprise. Mae bwlio neu seiberfwlio a gyfeirir tuag at gwmnïau myfyrwyr eraill, neu grwpiau neu unigolion eraill, yn annerbyniol ac ni fydd yn cael ei oddef.

Mae YE yn cadw'r hawl i dynnu myfyrwyr neu gwmnïau myfyrwyr yn ôl o'r rhaglen os yw eu hymgysylltiad ar-lein yn peryglu ein henw da, yn torri polisïau a thelerau, neu'n achosi niwed posibl.

# Da iawn!

Cyfeiriwch at y Fframwaith Gweithredu drwy gydol y daith i sicrhau bod eich cwmni myfyrwyr yn gweithredu o fewn rheolau'r rhaglen.

Dyma'r dolenni i'n gwefannau:

- **Company Connect**
- **YE Trading Station**

**Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r Rhaglen Cwmni!**